# Adroddiad Arolygu

**Cylch Chwarae Dechrau'n Deg Gelli Aur/Golden Grove**

**Ysgol Gelli Aur**
**Orange Way**
**Penfro**
**SA71 4DP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Chwarae Dechrau'n Deg Gelli Aur/Golden Grove

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Andrew Williams |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Mawrth 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth hwn. Maent yn gwybod y caiff eu hanghenion, eu dymuniadau a'u teimladau eu hystyried a gallant wneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain. Mae'r plant yn mynegi mwynhad ac maent yn gyfforddus, yn gallu ymlacio ac wedi setlo'n dda. Caiff y plant gyfleoedd gwych i ddilyn eu diddordebau ac maent yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael.

Mae bron pob aelod o'r staff yn gweithredu polisïau mewn ffordd gyson ac yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Mae'r staff yn gymwys, yn wybodus, yn garedig ac yn ofalgar tuag at y plant; maent yn dangos brwdfrydedd gwirioneddol yn eu rolau. Mae'r staff yn darparu lleoliad magwrus dan arweiniad y plant. Maent yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae a dysgu â chydbwysedd priodol rhwng cyfleoedd dan arweiniad y plentyn a chyfleoedd dan arweiniad yr oedolyn. Mae'r staff yn cynllunio ac yn asesu mewn ffordd bwrpasol er mwyn gwneud yn siŵr y caiff diddordebau a chwilfrydedd y plant eu datblygu ymhellach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi mesurau da ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'r amgylchedd yn cynnwys ardaloedd chwarae da dan do ac yn yr awyr agored er mwyn i'r plant allu symud yn rhydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y defnyddir yr ardal chwarae awyr agored bob dydd. Maent yn sicrhau bod ystod dda o adnoddau a chyfarpar ar gael i'r plant er mwyn meithrin sgiliau datblygiadol cyffredinol y plant.

Mae'r trefniadau ar gyfer arwain a rheoli'r lleoliad yn briodol ac yn drefnus. Maent yn awyddus iawn i sicrhau eu bod yn cynnig gofal o safon uchel i'r plant. Maent wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae systemau addas ar waith ar gyfer rheoli cofnodion, cynnal polisïau ac adolygu ansawdd y gofal.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae'r ffaith bod staff cyson sy'n eu hadnabod yn dda yn gweithio yno o fudd iddynt. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau llawn hoffter gan eu bod yn cael llawer o sylw gan aelodau o staff sy'n rhyngweithio'n dda â nhw. Maent wedi setlo ac yn amlwg yn gyfarwydd â'r arferion, er enghraifft, maent yn gwybod pan fydd hi'n amser byrbryd ac mae rhai ohonynt yn estyn eu cadair eu hunain er mwyn eistedd wrth y bwrdd. Mae'r plant yn ymuno'n frwd yn y gweithgareddau. Gwnaethant ddangos boddhad mawr wrth iddynt gymryd rhan yn y sesiwn 'Bucket Time'. Yn ogystal, gwelsom blentyn yn cofleidio aelod o'r staff yn ystod y sesiwn hon sy'n dangos fod cydberthnasau cadarnhaol wedi cael eu meithrin. Mae ganddynt lais cryf, a chânt ddewis yr hyn yr hoffent chwarae ag ef ac ym mhle. Caiff teimladau ac anghenion y plant eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson dda. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda am eu hoedran. Er enghraifft, roeddent yn rhannu'r adnoddau wrth chwarae â'r modelau o ddreigiau. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau â'i gilydd. Mae'r plant yn dangos hoffter a gofal tuag at ei gilydd. Er enghraifft, gwelsom y plant yn cofleidio ei gilydd, yn gwenu ar ei gilydd ac yn trafod y cymeriad ar siwmper un ohonynt. Roedd plentyn arall yn mwytho braich plentyn yn ystod 'Bucket Time'.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cael rhyddid i archwilio'r amgylchedd yn ddiogel. Mae ganddynt hunangymhelliant i fwrw ati i ddechrau eu chwarae eu hunain ac i ddylanwadu ar eu tasgau, gan fod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau dan arweiniad y plentyn a gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn. Gwelsom y plant yn mwynhau archwilio'r man twff â thema'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, gan ddefnyddio gweill bwyta i symud reis lliw o amgylch yr hambwrdd. Roedd plentyn arall yn dilyn cyfarwyddiadau gan aelod o'r staff, gan baru blociau lliw â'i gilydd yn frwd a'u gosod mewn cynwysyddion.

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth. Yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn defnyddio cyllyll plastig i daenu menyn ar graceri, ac maent yn clirio'u platiau yn annibynnol unwaith y byddant wedi gorffen. Mae'r plant yn defnyddio'r sinc heb lawer o gymorth i olchi eu dwylo, ac yn rhoi'r tywelion papur yn y bin yn annibynnol. Maent yn gallu cael gafael ar adnoddau a gweithgareddau yn hyderus.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae bron pob aelod o'r staff yn rhoi'r polisïau ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Mae'r staff yn nodi risgiau ac yn rheoli hyn mewn modd rhagweithiol ac effeithiol. Yn ystod yr ymweliad, gwnaeth y staff drafod yr adnoddau roeddent wedi cael gwared arnynt am eu bod wedi torri, gan nodi bod angen dod o hyd i adnoddau newydd yn eu lle. Gwnaethom hefyd glywed aelod o'r staff yn atgoffa plentyn i fod yn ofalus wrth iddo chwarae, *“No throwing okay? You may hurt me.”* Mae gan y staff ddealltwriaeth drylwyr o'u rôl o ran amddiffyn plant a gwnaethant ateb cwestiynau diogelu yn hyderus. Mae'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd. Maent yn cadw cofnod o ddamweiniau a gaiff eu cydlofnodi gan y rhieni / gofalwyr.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Mae'r staff yn siarad yn barchus â'r plant, gan ddangos diddordeb, pleser a gofal ym mhopeth a wnânt. Mae’r staff yn canmol y plant am eu hymdrechion a’u cyflawniadau er mwyn hybu eu hyder a’u hunan-barch,*“Da iawn. Good job.”* Mae'r staff yn annog moesau da ac yn atgoffa'r plant i ddweud diolch. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol ac agos â nhw. Mae'r staff yn deall dewisiadau'r plant ac yn sensitif i anghenion pob plentyn. Maent yn casglu gwybodaeth fanwl am y plant cyn iddynt ddechrau, ac maent yn cyfathrebu'n dda â'r rhieni. Mae hyn yn sicrhau y caiff anghenion unigol pob plentyn eu diwallu.

Mae'r staff yn parchu teimladau'r plant, er enghraifft, drwy ofyn iddynt a allant eu helpu i sychu eu trwynau. Mae'r drefn ar gyfer newid cewynnau yn dangos urddas, gofal a pharch. Fodd bynnag, nid yw'r polisi newid cewynnau bob amser yn cael ei ddilyn yn gywir. Mae amseroedd byrbryd yn ddigynnwrf ac yn drefnus. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddewis eu byrbryd yn ogystal â chyfleoedd i daenu menyn ar eu craceri. Fodd bynnag, ni chaiff cyfleoedd iddynt helpu eu hunain i ffrwythau ac i arllwys eu diodydd eu hunain bob amser eu hyrwyddo mewn ffordd weithredol. Dylid sicrhau bod dŵr ar gael i bob plentyn drwy gydol y sesiynau a bod modd i'r plant helpu eu hunain iddo.

Mae’r staff yn cefnogi dysgu’r plant mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn wybodus am ddatblygiad y plant ac yn cynllunio gweithgareddau yn unol â hynny. Maent yn asesu cynnydd y plant yn aml ac yn monitro eu dysgu a’u datblygiad yn dda. Mae'r staff yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn defnyddio Cymraeg achlysurol â'r plant yn rheolaidd. Mae'r staff hefyd yn sicrhau bod y byrddau arddangos yn ddwyieithog, yn ogystal â geiriau allweddol sy'n rhan o'r gweithgareddau. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd gweithgaredd y man twff ar gyfer gwneud crempogau yn cynnwys geiriau dwyieithog. Mae'r staff yn darparu amgylchedd dysgu cytbwys lle gall y plant ddilyn eu diddordebau, yn ogystal â chynllunio rhai gweithgareddau strwythuredig, er enghraifft gweithgaredd paru lliwiau a chyfle i ddysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r staff yn cydnabod achosion lle y gallai fod gan y plant anghenion ychwanegol. Maent yn cymryd camau

pwrpasol ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae'r staff yn ymateb yn gyson. Maent yn gwneud pob ymdrech i wrando'n astud ac i gyfathrebu â'r plant. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd, caredigrwydd ac amynedd. Mae'r staff yn cymryd amser i sicrhau eu bod yn rhyngweithio mewn modd ystyrlon sydd o fudd i'r plant sy'n cael gofal ganddynt.

## Yr Amgylchedd Da

Mae systemau da ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn cadw cofnodlyfr o ymwelwyr. Mae asesiadau risg ar waith i sicrhau y caiff risgiau diangen i'r plant eu dileu cymaint â phosibl. Mae polisïau cynhwysfawr ar waith ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a'i fod mewn cyflwr da. O ganlyniad i drefniadau glanhau cyson, mae'r amgylchedd dan do yn lân ac yn ddymunol. Fodd bynnag, nid oes cofnod ysgrifenedig ffurfiol yn cael ei gadw o hyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Maent yn sicrhau y defnyddir yr ardaloedd chwarae awyr agored mor aml â phosibl a'u bod yn gweithredu fel estyniad i'r amgylchedd dysgu. Mae’r staff yn deall pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored i hybu datblygiad y plant. Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a chyfarpar da, gan gynnwys teganau reidio, ardaloedd plannu, cegin fwd a chyfarpar dringo, ymhlith pethau eraill. Mae'r ardaloedd a'r cyfarpar hyn yn helpu'r plant i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da sy'n briodol o ran camau datblygiad y plant er mwyn sicrhau bod amrywiaeth a dewis da ar gael iddynt. Maent yn darparu adnoddau ysgogol i bob oedran a cham datblygu, sy'n cyfrannu at ddatblygiad cyffredinol y plant. Er enghraifft, drwy chwarae adeiladu, gweithgareddau synhwyraidd, gweithgareddau byd bach a gweithgareddau creadigol. Gall y plant gael gafael ar y teganau a'r adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i ddarparu adnoddau ysgogol, gan gynnwys llyfrau, jig-sos a doliau er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gryf y maent yn ei rhannu ag eraill, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau fel darparwr. Maent yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth da. Diweddarwyd y Datganiad o Ddiben yn dilyn yr ymweliad arolygu, ac mae'n rhoi disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu dilyn ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig. Maent hefyd yn sicrhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gwaith papur yn cael ei storio'n ddiogel a bod gwiriadau addasrwydd ar waith. Mae'r aelodau o staff sy'n gweithio yn y lleoliad wedi bod yn gweithio yno ers amser ac roedd bron pob un o'r ffeiliau y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys y ddogfennaeth ofynnol. Gwnaethom drafod y gofyniad i allu gweld a chael gafael ar yr holl ddogfennaeth addasrwydd mewn perthynas ag aelodau o'r staff, gan fod rhywfaint o'r ddogfennaeth addasrwydd hanesyddol yn cael ei storio rywle arall. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal sesiynau goruchwylio effeithiol yn ogystal ag arfarniadau blynyddol gyda'r staff, a chaiff y rhain eu cofnodi'n glir. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda a cheir diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Dywedodd y staff wrthym gymaint y maent yn mwynhau gweithio yn y lleoliad ac roedd eu balchder a'u brwdfrydedd yn amlwg, drwy sylwadau fel y canlynol; *'I'm really happy here. I feel really well supported. We work well as a team, we share ideas and contribute to the planning, and we have plenty of opportunities to attend courses.'*

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau adroddiad addas ar ansawdd y gofal bob blwyddyn. Maent yn gofyn am safbwyntiau'r rhieni a'r gofalwyr yn ogystal â safbwyntiau'r staff a'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ymateb i'r safbwyntiau ac wedi gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth drwy gyflwyno llwyfan ar-lein i gyfathrebu â'r rhieni a'r gofalwyr. Maent yn sicrhau bod contractau priodol ar waith ar gyfer y plant yn eu gofal ac maent yn darparu gwasanaeth dibynadwy. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod wedi cael y caniatadau perthnasol gan y rhieni.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau ystyrlon a chadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae systemau da ar waith i roi gwybodaeth reolaidd i'r rhieni am yr amser y mae eu plentyn yn ei dreulio yn y lleoliad, drwy gyfathrebu ar lafar a thrwy ddefnyddio llwyfan ar-lein y lleoliad. Dywedodd y rhieni wrthym ba mor gefnogol a pharod eu cymwynas oedd y staff, a chymaint yr oedd eu plant yn mwynhau mynychu. Dywedodd y rhieni wrthym gymaint roedd eu plant wedi datblygu yn ystod eu cyfnod yn mynychu'r lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 29 | nid oedd pob aelod o'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio un i un rheolaidd. | Cyflawnwyd |
| 28 | Nid oedd dogfennaeth lawn a boddhaol ar gael mewn perthynas â gwiriadau recriwtio. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod y staff yn dilyn y weithdrefn newid cewynnau yn gywir. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau bod dogfennau addasrwydd pob aelod o staff wedi dod i law cyn eu penodi. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff annibyniaeth y plant ei hyrwyddo'n llawn. |
| Sicrhau y caiff amserlenni glanhau eu cofnodi. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/05/2024